



Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu

Awgrymiadau Llyfrau Stori 3-5 oed

the Daily Mile Foundation

	**All Are Welcome by Alexandra Penfold a Suzanne Kaufman**	Llyfr lluniau cynnes am ysgol lle mae pob plentyn wedi'i gynnwys, sy'n ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer sgyrsiau am gymuned yr ystafell ddosbarth.
	**Lost and Found by Oliver Jeffers**	Stori ysgafn am gyfeillgarwch, unigrwydd a deall lle mae rhywun yn perthyn mewn gwirionedd.
	**The Perfect Fit by Naomi Jones & James Jones**	Dim ots pa mor galed mae hi'n ceisio, nid yw'r Triongl yn rholio fel y cylchoedd, nac yn pentyrru fel y sgwariau . . . Felly mae hi'n mynd i chwilio am ffrindiau sy'n edrych yn union fel hi. Ond pan mae hi'n dod o hyd i'r trionglau eraill, does dim cymaint o hwyl i'w gael wrth chwarae. Mae hi'n hiraethu am y siapiau sy'n rholio ac yn pentyrru; mae hi'n gweld colli cael ffrindiau o bob siâp a maint!
	**You Matter by Christian Robinson**	Mae'r llyfr lluniau myfyriol yma yn atgoffa plant eu bod yn bwysig, i'w teuluoedd, eu cymunedau a'r byd. Mae'n cydnabod y gallech weithiau deimlo'n fach neu'n ddibwys ond yn pwysleisio bod pawb yn bwysig ac yn gysylltiedig â rhywbeth mwy.
	**Mixed: A Colourful Story by Arree Chung**	Mae'r cochion, y melynion, a'r gleision i gyd yn meddwl mai nhw yw'r gorau yn y llyfr lluniau bywiog yma gan Arree Chung sy'n ysgogi meddwl, gyda neges o dderbyn ac undod.






Ymunwch â miloedd o ysgolion, dros y byd, sy'n cymryd rhan yn barod. Helpwch eich plant i deimlo'n fwy iach, yn fwy hapus a chreu arferion iachach gydol eu hoes.

Cofrestrwch yn:
thedailymile.co.uk

Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu

Awgrymiadau Llyfrau Stori 5-7 oed

the Daily Mile Foundation

	**The Day You Begin by Jacqueline Woodson a Rafael López**	Gall teimlo fel rhywun o'r tu allan fod yn frawychus ar y dechrau, ond efallai mai'r diwrnod y byddwch chi'n dechrau rhannu eich straeon yw'r diwrnod y mae eraill yn dod o hyd i'r dewrder i rannu eu straeon hwy hefyd. Stori delynegol am ddathlu gwahaniaethau, gan awdur arobryn 'Brown Girl Dreaming', Jacqueline Woodson.
	**Simon Sock by Sue Hendra**	Mae Simon yn hosan od, streipiog. Mae'n byw yn y droriau gyda'r holl hosanau eraill. Bob dydd mae dwy hosan yn cael eu dewis i fynd ar antur. Mae'r hosanau disglair yn mynd i bartïon. Mae'r hosanau gwlân yn mynd i'r parc. Mae'r hosanau smart yn mynd i'r ysgol. Mae gan bawb bâr... ac eithrio Simon. A fydd Simon byth yn dod o hyd i'w bartner perffaith? Stori ddoniol sy'n dathlu cyfeillgarwch a gwahaniaeth gan bartneriaeth llyfr lluniau newydd cyffrous.
	**Julian Is a Mermaid by Jessica Love**	Stori dyner am hunanfynegiant, derbyn a chael eich caru am bwy ydych chi.
	**The Lion Inside by Rachel Bright a Jim Field**	Stori boblogaidd am hyder, hunan-barch, a llygoden fach swil sy'n cychwyn ar daith i ddod o hyd i'w rhu.Mae Mouse wedi cael llond bol ar gael ei anwybyddu gan yr anifeiliaid eraill, ac eisiau gallu rhuo fel Llew. Ond, fel y mae'n darganfod, mae hyd yn oed y bobl fwyaf, a mwyaf boslyd yn ofnus weithiau ... a gall y creaduriaid lleiaf fod â chalon llew!
	**A Kids Book About Belonging by Kevin Carroll**	Esboniad clir o beth yw perthyn, a sut i dderbyn a deall pwy ydych chi. Mae hwn yn llyfr plant am berthyn. Mae'n mynd i'r afael â sut beth yw teimlo eich bod chi'n perthyn i grŵp neu deulu neu dîm, a sut mae'n teimlo pan nad ydych chi. Mae'n mynd i'r afael â sut mae'n teimlo pan nad ydych chi'n ffitio i mewn, neu pan fydd yn teimlo fel nad yw eraill eisiau i chi fod o gwmpas.





Ymunwch â miloedd o ysgolion, dros y byd, sy'n cymryd rhan yn barod. Helpwch eich plant i deimlo'n fwy iach, yn fwy hapus a chreu arferion iachach gydol eu hoes.

Cofrestrwch yn:
thedailymile.co.uk

Cyfranogiad Cynhwysol: Symud, Perthyn a Ffynnu

Awgrymiadau Llyfrau Stori 7-11 oed

the Daily Mile Foundation

	**The Boy at the Back of the Class by Onjali Q. Raúf**	Nofel bwerus, hygyrch am groeso, empathi a chefnogi rhywun sy'n newydd i gymuned.
	**Wonder by R. J. Palacio**	Mae'n annog myfyrio ar garedigrwydd, gwahaniaeth, cyfeillgarwch a'r hyn y mae'n ei olygu i gael eich derbyn.
	**The Arrival by Shaun Tan**	Nofel graffig ddi-eiriau sy'n cefnogi trafodaeth gyfoethog am fudo, lleoedd anghyfarwydd ac adeiladu ymdeimlad o gartref.
	**Front Desk by Kelly Yang**	Archwilio hunaniaeth, teulu, tegwch a pherthyn trwy stori plentyn sy'n llywio gwlad a chymuned newydd.
	**The House with Chicken Legs by Sophie Anderson**	Stori hudolus am ddisgwyliadau teuluol, hunaniaeth a darganfod ble rydych chi'n perthyn mewn gwirionedd.

Ymunwch â miloedd o ysgolion, dros y byd, sy'n cymryd rhan yn barod. Helpwch eich plant i deimlo'n fwy iach, yn fwy hapus a chreu arferion iachach gydol eu hoes.

Cofrestrwch yn:
thedailymile.co.uk